OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2006 Rhif 1338 (Cy.130) (C.45)

ADDYSG, CYMRU

Gorchymyn Deddf Addysg 2005 (Cychwyn Rhif 1 a Darpariaethau Trosiannol) (Cymru) 2006

Wedi'i wneud - - 16 Mai 2006

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddo gan adrannau 120(2) a 125(4) o Ddeddf Addysg 2005(**1**), drwy hyn yn gwneud y Gorchymyn a ganlyn:

Enwi a dehongli

1. Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Deddf Addysg 2005 (Cychwyn Rhif 1 a Darpariaethau Trosiannol a Darpariaethau Trosiannol) (Cymru) 2006.

2. –

(1) Yn y Gorchymyn hwn–

ystyr "Deddf 1996" ("*the 1996 Act*") yw Deddf Arolygiadau Ysgolion 1996(**2**);

ystyr "Deddf 1998" ("*the 1998 Act*") yw Deddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998(**3**);

ystyr "Deddf 2000" ("*the 2000 Act*") yw Deddf Dysgu a Medrau 2000(**4**); ac

ystyr "Deddf 2005" ("*the 2005 Act*") yw Deddf Addysg 2005.

(2) Yn y Gorchymyn hwn, oni nodir fel arall, mae cyfeiriadau at adrannau ac Atodlenni yn gyfeiriadau at adrannau o Ddeddf 2005 ac at Atodlenni iddi.

Y Diwrnod penodedig

3. Daw darpariaethau Deddf 2005 a bennir yn Atodlen 1 i'r Gorchymyn hwn i rym ar 1 Medi 2006 o ran Cymru.

4. –

(1) Yn ddarostyngedig i baragraff (2), mae darpariaethau Deddf 2005 a bennir yn Atodlen 2 i'r Gorchymyn hwn i ddod i rym ar 1 Medi 2006 o ran Cymru a Lloegr.

(**1**) 2005 p.18.
(**2**) 1996 p.57.
(**3**) 1998 p.31.
(**4**) 2000 p.21.

(2) Nid yw adrannau 41 a 42 i ddod i rym ond i'r graddau eu bod yn gymwys i ysgolion arbennig o'r disgrifiad sydd yn adran 28(2)(d).

5. Daw darpariaethau Deddf 2005 a bennir yn Atodlen 3 i'r Gorchymyn hwn i rym ar 1 Ebrill 2007 o ran Cymru a Lloegr.

Darpariaethau trosiannol ac arbedion

6. Mae'r darpariaethau trosiannol a'r arbedion a nodir yn Atodlen 4 yn gymwys.

Llofnodwyd ar ran Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan adran 66(1) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998(**5**)

D. Elis-Thomas
16 Mai 2006 Llywydd y Cynulliad Cenedlaethol

(**5**) 1998 p.38.

ATODLEN 1 Erthygl 3

Darpariaethau sy'n dod i rym ar 1 Medi 2006 o ran Cymru

Y ddarpariaeth	*Y pwnc*
Adran 44	Categorïau o ysgolion sy'n peri pryder.
Adran 45	Achosion pan gaiff y Cynulliad gyfarwyddo cau ysgol.
Adran 46	Dosbarthiadau chwech y mae gofyn eu gwella'n sylweddol.
Adran 47	Ystyr “denominational education”.
Adran 51	Pŵer yr AALl i arolygu ysgol a gynhelir at ddiben penodol.
Adran 53, i'r graddau y mae'n ymwneud â darpariaethau Atodlen 7 y cyfeirir atynt isod.	Arolygu gwarchod plant, gofal dydd ac addysg feithrin.
Adran 54	Arolygu ysgolion annibynnol.
Adran 58	Arolygu cofnodion cyfrifiadurol.
Adran 59	Adroddiadau cyfunol.
Adran 60	Diddymu Deddf Arolygiadau Ysgolion 1996.
Adran 61, i'r graddau y mae'n ymwneud â darpariaethau Atodlen 9 y cyfeirir atynt isod.	Diwygiadau pellach sy'n ymwneud ag arolygu ysgolion.
Adran 71	Cynigion sy'n ymwneud ag ysgolion arbennig a gynhelir.
Adran 105	Darparu a chyllido addysg uwch mewn ysgolion a gynhelir.
Adran 106	Trefniadau derbyn i wneud darpariaeth arbennig i blant sy'n derbyn gofal.
Adran 115	Pwer corff llywodraethu i wneud darpariaeth amgen ar gyfer disgyblion sydd wedi'u gwahardd.
Adran 116	Rhiant yn methu â sicrhau bod plentyn yn mynychu'r ddarpariaeth amgen.
Adran 117 i'r graddau y mae'n ymwneud â darpariaethau Atodlen 18 isod.	Diwygiadau pellach sy'n ymwneud â Rhan 4.
Adran 118	Ystyr “the 2002 Act” yn Rhan 4.
Adran 123 i'r graddau y mae'n ymwneud â darpariaethau Atodlen 19 y cyfeirir atynt isod.	Diddymiadau.
Atodlen 5	Dosbarthiadau chwech y mae angen eu gwella'n sylweddol.
Paragraffau 6 i 24 o Atodlen 7.	Arolygu gwarchod plant, gofal dydd ac addysg feithrin.
Atodlen 8	Arolygu ysgolion annibynnol.

Y ddarpariaeth	*Y pwnc*
Paragraffau 8 i 21 a 28 i 30 o Atodlen 9.	Diwygiadau pellach sy'n ymwneud ag arolygu ysgolion.
Paragraffau 1, 6 a 15 o Atodlen 18.	Diwygiadau pellach sy'n ymwneud â Rhan 4.
Yn Atodlen 19, Rhan 1:	Diddymiadau
Y diddymiadau sy'n ymwneud â: Deddf Addysg 1996, Deddf Arolygiadau Ysgolion 1996, Deddf Addysg 1997, Deddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998, Deddf Dysgu a Medrau 2000 (ac eithrio adran 81), Deddf Addysg 2002.	Diddymiadau.

ATODLEN 2

Erthygl 4

Darpariaethau sy'n dod i rym ar 1 Medi 2006 o ran Cymru a Lloegr

Y ddarpariaeth	*Y pwnc*
Adran 19	Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru.
Adran 20	Swyddogaethau'r Prif Arolygydd.
Adran 21	Adroddiadau blynyddol ac adroddiadau eraill i'r Cynulliad.
Adran 22	Pŵer y Cynulliad i sefydlu panel cynghorol.
Adran 23	Pwerau mynediad etc y Prif Arolygydd.
Adran 24	Pŵer y Prif Arolygydd i drefnu arolygiadau.
Adran 25	Cofrestru Arolygwyr yng Nghymru.
Adran 26	Tynnu arolygwyr o'r Gofrestr a gorfodi ac amrywio amodau.
Adran 27	Apelau ynghylch cofrestru.
Adran 28	Dyletswydd i drefnu bod ysgolion penodol yn cael eu harolygu'n rheolaidd.
Adran 29	Cyhoeddi adroddiadau arolygu.
Adran 30	Talu ffioedd i Gronfa Gyfunol.
Adran 31	Dehongli Pennod 3.
Adran 32	Arolygiadau gan aelodau o'r Arolygiaeth.
Adran 33	Dyletswydd i roi adroddiad ar arolygiadau adran 28.
Adran 34	Arolygiadau adran 28 gan arolygwyr cofrestredig.